# Canllaw comisiynydd ar wasanaethau cymorth dementia Alzheimer's Society

Alzheimer's Society Cymru

Gyda'n gilydd, byddwn yn cynnig help a gobaith i bawb sy'n byw gyda dementia

## Sut rydyn ni'n cynnig cymorth a gobaith pan fydd ei angen fwyaf ar bobl

**Ar hyn o bryd mae tua miliwn o bobl â dementia yn y DU, ac erbyn 2040 bydd hyn yn codi i 1.4 miliwn o bobl. Mae angen cymorth a chefnogaeth hollbwysig ar bob un ohonynt. Fel prif elusen dementia'r DU rydyn ni'n cynnig gwasanaethau ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn y daflen hon fe welwch ganllaw cynhwysfawr am y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu'n lleol (tudalennau 2 a 3), yn ogystal â'r gwasanaethau sydd ar gael mewn partneriaeth sy'n rhoi gwerth ychwanegol (tudalen 4).**

## Ein haddewid i chi

Ein cenhadaeth yw gweithio gyda chi i ganfod heriau'r system, mynd i'r afael â nhw, a'u datrys. Byddwn yn dylunio ac yn teilwra ein gwasanaethau i fodloni anghenion eich cymuned leol. Rydyn ni'n hyblyg yn y ffordd rydyn ni'n gweithio er mwyn i ni allu helpu mwy o bobl mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw. Hefyd, gallwn weithio'n hyblyg o amgylch eich cyllideb, felly cysylltwch â ni.

## Pam comisiynu ein gwasanaethau?

Rydyn ni'n deall pob agwedd ar ddementia, ac rydyn ni'n darparu cymorth dementia effeithiol sydd wedi'i ddylunio'n ofalus ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth i bobl â dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Rydyn ni'n cyflawni hyn drwy gyflogi staff medrus iawn, adeiladu ar ein harbenigedd, a chydweithio ag arbenigwyr a chymunedau lleol.

Rydyn ni'n darparu gwasanaethau arloesol a diogel o ansawdd uchel sy'n gwneud gwahaniaeth i brofiad pobl o fyw gyda dementia. Mae ein gwasanaethau'n seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn a'n dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen a'r hyn sy'n gweithio. Mae adolygiadau gwasanaeth yn cyd-fynd â Datganiadau Ansawdd a Chwestiynau Allweddol y Comisiwn Ansawdd Gofal, a'r rhain yw'r mecanwaith canolog ar gyfer sicrhau ansawdd o fewn y Gymdeithas.

- Roedd 81% o bobl â dementia ac 82% o ofalwyr yn cytuno bod ein gwasanaethau'n gwneud eu bywyd yn well mewn rhyw ffordd.
- Roedd 96% yn teimlo eu bod wedi cael gwybodaeth ddefnyddiol gan y gwasanaeth cymorth dementia.
- Roedd 95% yn cytuno bod eu Cynghorydd Dementia yn deall eu hanghenion.
- Roedd 92% yn teimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth i ymdopi ers dechrau defnyddio'r gwasanaeth.

### Mae angen am well cymorth

- Disgwylir i nifer y bobl sy'n byw gyda dementia godi o 1 miliwn i 1.4 miliwn yn 2040
- Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm cost dementia yn y DU yn tyfu o £42 biliwn yn 2024 i £90 biliwn yn 2040
- Bydd gofal di-dâl yn tyfu o £21.1 biliwn (2024) i £40.1 biliwn (2040)
- Bydd gofal cymdeithasol yn tyfu o £17.2 biliwn (2024) i £40.7 biliwn (2040)
- Bydd gofal iechyd yn tyfu o £7.1 biliwn (2024) i £13.5 biliwn (2040)



**"Rydyn ni wedi bod yn comisiynu Alzheimer's Society yn lleol ers 2019. Mae gan Alzheimer's Society ethos cryf o ran cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr. Rydyn ni wedi cael ein synnu gan ansawdd uchel y data sy'n cael ei adrodd i ni sy'n arddangos eu hymarfer manwl. Mae gan Alzheimer's Society bresenoldeb cryf yn ein cymuned, ac mae wedi bod yn gweithio'n galed i ddatblygu partneriaethau gyda chyrff gwirfoddol a statudol lleol."**

Comisiynydd, Kingston

Mae Alzheimer's Society yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (296645) ac ar Ynys Manaw (1128).

# **Gwasanaethau lleol** ar gyfer pobl â dementia, eu gofalwyr, eu teuluoedd a'u ffrindiau

## Ar gyfer y rheini sydd angen cymorth un-i-un

### Cynghorwyr Dementia Alzheimer's Society

**Roedd fel petai rhywun wedi troi'r golau ymlaen eto. Roedd y cynghorydd dementia wedi gwneud i mi sylweddoli bod bywyd ar ôl eich diagnosis. Helpodd fi i adennill fy hunan-barch a'm hyder.**

Unigolyn â dementia



**Dw i'n teimlo fy mod i'n gallu ymdopi'n well nawr, ac er fy mod i wedi dysgu bod taith dementia yn wahanol i bawb, dw i'n teimlo'n fwy parod ar gyfer yr hyn y gallai fod angen i mi ei wynebu yn y dyfodol.**

Gofalwr

Mae ein cynghorwyr dementia medrus yn darparu cymorth emosiynol ac ymarferol uniongyrchol i atal argyfwng. Mae eu hadnoddau a'u gwybodaeth leol arbenigol yn galluogi pobl i gael gafael ar y cymorth, y gofal a'r gefnogaeth ymarferol sydd eu hangen arnynt. Maen nhw'n cysylltu pobl â'u cymunedau, ac yn eu cynorthwyo i fyw gartref yn annibynnol ac am gyfnod hirach. Maen nhw'n helpu pobl drwy rai o'u heriau a newidiadau sylweddol, fel:

- Cael diagnosis
- Addasu i fyw gyda dementia
- Angen mwy o gymorth â gofal
- Mynd i'r ysbyty
- Angen cartref arall
- Ar ddiwedd oes

Mae ein cymorth yn cyfrannu at ofynion canllawiau NICE i ofalwyr, ac mae'n deall y gwahanol anghenion sydd gan ofalwyr a'r rhai maen nhw'n gofalu amdanynt. Gellir rhoi cymorth dros y ffôn neu yn ystod apwyntiad ar-lein, a gall fod yn y gymuned. Gellir darparu cymorth mewn gwahanol leoliadau, er enghraifft, ochr yn ochr â gofal sylfaenol, yn yr ysbyty neu yng nghartref yr unigolyn.





## Gellir teilwra'r holl wasanaethau hyn i'ch anghenion lleol

## Ar gyfer y rheini sydd eisiau gweithgareddau a chysylltiad cymdeithasol

### Singing for the Brain®

Mae Singing for the Brain® yn dod â phobl sydd â dementia at ei gilydd i ganu'r caneuon maen nhw'n eu hadnabod ac yn eu caru mewn awyrgylch anffurfiol a hwyliog. Gall canu wella gweithgaredd yr ymennydd, lles a hwyliau, ac mae'n gyfle i bobl gwrdd â ffrindiau newydd.

**Mae mam wedi bod yn mynd i Singing for the Brain ers dros ddwy flynedd, ac mae hi wrth ei bodd! Dw i wedi dysgu llawer am sut i fod yn ofalwr a sut i ddeall Alzheimer's.**

Gofalwr - mae ei mam yn dioddef o glefyd Alzheimer cynnar

### Caffi Dementia Alzheimer's Society

Mae Caffis Dementia Alzheimer's Society yn darparu man croesawgar a chefnogol i bobl â dementia a'u gofalwyr gwrdd yn rheolaidd yn eu cymuned leol. Mae caffis lleol yn lle diogel i bobl drafod eu diagnosis a rhannu profiadau a gwybodaeth.

### Grwpiau gweithgareddau

Mae grwpiau gweithgareddau sy'n seiliedig ar sgiliau neu ddiddordebau yn cael eu rhedeg gan arweinwyr neu wirfoddolwyr arbenigol, ac maen nhw'n gyfle i bobl â dementia a'u gofalwyr fwynhau celf a chrefft a gweithgareddau cryfder, cydbwysedd a therapiwtig yn y gymuned leol.



## Ar gyfer y rheini sydd eisiau cysylltu a dysgu gan eraill



### Rhaglenni gwybodaeth a chefnogaeth

Mae amrywiaeth o raglenni gwybodaeth ar gael i bobl â dementia, a/neu eu teuluoedd, eu ffrindiau a'u gofalwyr. Maen nhw'n cael eu cynnal mewn lleoliadau lleol ac yn cael eu rhedeg gan gynghorwyr dementia arbenigol sy'n rhannu gwybodaeth am bob agwedd ar ddementia ac yn helpu pobl i ddatblygu'r ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lywio drwy'r system ac i reoli realiti'r cyflwr.

### Grwpiau cefnogaeth gan gymheiriaid

Mae ein grwpiau Cefnogaeth gan Gymheiriaid yn sesiynau wedi'u hwyluso sy'n cynnig cyfle i rannu profiadau a dysgu gan gymheiriaid mewn amgylchedd diogel a chyfeillgar. Gall pobl â dementia neu eu gofalwyr ofyn cwestiynau, cael gwybodaeth a mynegi eu hunain.

**Mae'r grŵp cefnogi wedi bod yn achubiaeth i mi, ac yn fodd i mi ddysgu sut mae eraill yn ymdopi.**

Unigolyn â dementia

# Gwell gyda'n gilydd

## Drwy weithio gyda'n gilydd rydyn ni'n sicrhau newid trawsnewidiol i bobl sy'n byw gyda dementia

### Cefnogi systemau lleol

Rydyn ni'n ddarparwr profiadol o fodelau gwasanaeth cymorth dementia integredig sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â heriau'r system fel rhyddhau cleifion o ysbytai yn gynt ac atal argyfwng. Mae gennym yr adnoddau, gan gynnwys pecynnau cymorth, i helpu i ddatblygu ac adolygu strategaethau dementia, gan weithio gyda chomisiynwyr i fynd i'r afael â heriau neu feysydd ffocws mewn poblogaethau lleol. Mae hyn yn cynnwys ffyrdd o weithio i sicrhau bod cymunedau'n fwy cynhwysol o ran dementia yn ogystal ag archwilio ffyrdd o gyrraedd grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ac ymgysylltu â nhw.

### Cyd-gynhyrchu a chymryd rhan

Mae gwrando ar bobl â dementia, a gweithio gyda nhw, yn ein galluogi i ddeall heriau ac anghenion y rhai yr effeithir arnynt yn well, a chynllunio gwasanaethau a llwybrau dementia effeithiol sy'n diwallu'r anghenion hynny. Mae gennym dimau ymroddedig sy'n cynorthwyo comisiynwyr i gyflawni eu nodau strategol drwy gyd-gynhyrchu a chymryd rhan.

### Ein partneriaethau arbenigol

Rydyn ni'n gweithio mewn amrywiaeth o ffyrdd gyda phartneriaid arbenigol sy'n ein cefnogi i fynd i'r afael â phob agwedd ar ddementia. Er enghraifft, mae ein tîm Arloesi yn cydweithio â phartneriaid arbenigol i greu atebion newydd er mwyn chwyldroi triniaeth, gofal a chymorth. Rydyn ni'n meithrin cysylltiadau a chyfleoedd partneriaeth sy'n dod â gwybodaeth a sgiliau amrywiol at ei gilydd i roi cymorth a gobaith nawr ac yn y dyfodol. Rydyn ni'n helpu sefydliadau i fod yn ystyriol o ddementia, a gallwch ddod o hyd i ni mewn cynadleddau a digwyddiadau ledled y wlad yn addysgu, yn hyrwyddo ac yn codi ymwybyddiaeth o ddementia.

> **Mae Canolfan Trosglwyddo Gofal Ymddiriedolaeth Gogledd Bryste wedi cael budd enfawr o bresenoldeb Alzheimer's Society fel partner gweithredol i'w chefnogi wrth ryddhau cleifion. Mae cydweithwyr yn dod ag arbenigedd a sgiliau sylweddol gyda nhw wrth gefnogi pobl gydag amhariad gwybyddol, ac mae'r ffordd gydweithredol maen nhw wedi bod yn gweithio gydag Ymarferwyr Llesiant Dementia NBT, aelodau o Dîm Cyswllt Iechyd Meddwl NBT a holl bartneriaid eraill y Ganolfan wedi gwella'r profiad rhyddhau i gleifion, teuluoedd a staff.**
>
> Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Rhyddhau Integredig, Ymddiriedolaeth Gogledd Bryste, Ysbyty Southmead

### Hyfforddiant dementia

Mae hyfforddiant dementia ar gyfer gofal cymdeithasol yn cael ei argymell yn gryf. Rydyn ni'n cynnig hyfforddiant dementia cynhwysfawr sy'n cyd-fynd â haen un a dau Fframwaith Safonau Hyfforddiant Dementia Addysg Iechyd Lloegr. Darperir ein hyfforddiant arbenigol ar draws pob sector ac mae ar gael am bris fforddiadwy ar ffurf dysgu ar-lein a hyfforddiant byw a ddarperir gan arbenigwyr sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol.

Dywedodd 99% o'r bobl a ddaeth i un o'n cyrsiau hyfforddiant byw eu bod yn teimlo eu bod yn gallu darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn well i bobl â dementia.

Dywedodd 97% o'r cynadleddwyr eu bod yn teimlo'n fwy hyderus i gefnogi pobl â dementia ar ôl dod i'n cyrsiau.

*Yn Ch1 2024

### Cymorth dros y ffôn ac ar-lein

Mae gennym amrywiaeth o wasanaethau a all helpu pobl y mae dementia yn effeithio arnynt a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi. Mae ein llinell gymorth dementia ar gael saith diwrnod yr wythnos i bobl siarad â chynghorydd dementia am eu sefyllfa ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw. Mae ein cynghorwyr ffôn yn gallu rhoi cymorth arbenigol yn ogystal â chyfeirio pobl at wasanaethau lleol.

Mae ein Fforwm Cymorth Dementia ar-lein, sydd ar gael 24/7, yn cynnig amgylchedd diogel a chroesawgar lle gall pobl ryngweithio ag eraill sy'n wynebu heriau tebyg i rannu gwybodaeth a chael cefnogaeth gan gymheiriaid.

Mae ein Cyfeiriadur Dementia yn wasanaeth ar-lein cynhwysfawr a hawdd ei ddefnyddio lle gall pobl y mae dementia yn effeithio arnynt ddod o hyd i wasanaethau cymorth lleol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth
**alzheimers.org.uk**

> **Dw i'n gallu wynebu'r dyfodol gan wybod bod Alzheimer's Society yn fy nghefnogi.**
>
> A person with dementia

Os hoffech chi glywed mwy am ein gwasanaethau a sut y gallem gefnogi pobl y mae dementia yn effeithio arnynt yn eich ardal chi, neu os hoffech weld sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i ddeall y pwysau ar y system leol yn well a mynd i'r afael â nhw, cysylltwch â'n Tîm Partneriaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol – **HSCPartnerships@alzheimers.org.uk**

Mae Alzheimer's Society yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (296645) ac ar Ynys Manaw (1128).